

## Diweddariad polisi'r UE: (EU2013.06): Diwygio'r Gyfarwyddeb Asesu Effeithiau Amgylcheddol

### Cyflwyniad

Ar 26 Hydref 2012, cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd ei gynigion i **ddiwygio'r Gyfarwyddeb Asesu Effeithiau Amgylcheddol**<sup>1</sup>.

Mae'r Gyfarwyddeb bresennol (2011/92/EU) yn gofyn bod prosiectau sy'n debygol o gael effeithiau amgylcheddol sylweddol yn destun asesiad o'r effeithiau cyn iddynt gael caniatâd gan awdurdodau lleol a / neu awdurdodau cenedlaethol.

Er bod y Gyfarwyddeb wedi dod â manteision amgylcheddol ac economaidd-gymdeithasol, mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn nodi nad yw wedi newid yn sylweddol ers ei gyflwyno 25 mlynedd yn ôl. Amcan cyffredinol y cynnig yw mynd i'r afael â diffygion mewn perthynas â'r weithdrefn gwmpasu yn y Gyfarwyddeb bresennol, ansawdd a dadansoddiad o asesiadau effaith o fewn y Gyfarwyddeb a rhwng y Gyfarwyddeb a deddfwrfeydd eraill yr UE. Mae'r cynigion hefyd yn ceisio sicrhau bod y Gyfarwyddeb yn adlewyrchu'r newidiadau amgylcheddol ac economaidd-gymdeithasol sydd wedi digwydd ers y Gyfarwyddeb gyntaf a'i bod yn adlewyrchu'r agenda rheoleiddio smart.

<sup>1</sup> COM(2012)628 ar gael ar [wefan DG Amgylchedd](#).

## Crynodeb o'r prif bwyntiau yn y cynigion

- **Materion a gwmpesir gan Asesiadau o'r Effeithiau Amgylcheddol:** bydd y materion y mae'n ofynnol i asesiad eu hystyried yn cael eu newid i **gynnwys poblogaeth, iechyd dynol, bioamrywiaeth, y newid yn yr hinsawdd a thir**. Hefyd, bydd angen i asesiad ystyried amlygiad, bregusrwydd a gwydnwch datblygiadau o ran risgiau trychineb naturiol ac o waith dyn.
- **Prosiectau Atodiad II** Mae Atodiad I i'r Gyfarwyddeb bresennol yn nodi rhestr o brosiectau y mae'n rhaid iddynt fod yn destun asesiad. Caiff prosiectau a restrir yn Atodiad II, neu brosiectau tebyg, eu hasesu gan awdurdodau cymwys i benderfynu a oes angen asesiad llawn o'r effaith amgylcheddol. Byddai cynigion y Comisiwn yn ei **gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr ddarparu'r wybodaeth sydd mewn Atodiad IIA newydd i awdurdodau cymwys yn ystod y cam cyntaf hwn**, er mwyn galluogi awdurdodau i wneud penderfyniad ynghylch p'un a oes angen asesiad llawn. Yn ogystal, cynigir gosod amserlen ar gyfer gwneud penderfyniad sgrinio gan awdurdodau cymwys.
- **Adroddiadau amgylcheddol:** Byddai'r cynigion yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cymwys, mewn ymgynghoriad ag awdurdodau amgylcheddol, **nodi yn fanwl, i bob datblygwr, fanylion a chwmpas y wybodaeth y dylid ei chynnwys mewn asesiad o'r effaith amgylcheddol. Nid yw hyn yn orfodol ar hyn o bryd**. Byddai'r cynigion hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r datblygwr naill ai **benodi person technegol gymwys i gwblhau'r asesiad neu ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cymwys benodi person o'r fath i adolygu ei gynnwys**. Bydd hefyd yn ofynnol i'r adroddiad gyfeirio at ddewisiadau amgen rhesymol i'r prosiect a gynigiwyd a'i nodweddion penodol.

- **Ymgynghoriad:** Byddai'r cynigion yn cynnwys **amserlenni yn y Gyfarwyddeb ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd ac â'r awdurdodau amgylcheddol.** Byddai'r cyfnod amser yn para dim llai na 30 diwrnod a dim mwy na 60, ar wahân i mewn achosion eithriadol lle mae natur, maint, lleoliad neu gymhlethdod datblygiad yn golygu bod angen ymgynghoriad pellach o 30 diwrnod.
- **Gwneud penderfyniadau:** Os bydd yr ymgynghoriad neu'r wybodaeth a gesglir i lywio'r asesiad yn canfod y gallai'r prosiect gael effeithiau amgylcheddol andwyol sylweddol, rhaid i'r awdurdod cymwys, mewn cydweithrediad â'r **awdurdodau amgylcheddol a'r datblygwr, ystyried a ddylai'r prosiect gael ei addasu neu ei ddiwygio i liniaru'r effeithiau hynny neu i wneud iawn amdanynt.** Os bydd yr awdurdod cymwys yn penderfynu rhoi caniatâd datblygu, bydd yn sicrhau bod y caniatâd yn cynnwys mesurau i fonitro unrhyw effeithiau andwyol ac effeithiolrwydd unrhyw fesurau lliniaru neu fesurau i wneud iawn am yr effeithiau. Unwaith y bydd penderfyniad wedi cael ei wneud, byddai'n ofynnol i'r awdurdod cymwys ddarparu gwybodaeth am gynnwys y penderfyniad ac unrhyw amodau sydd ynghlwm, y rhesymau dros y penderfyniad ac unrhyw gamau lliniaru a mesurau monitro, i'r datblygwr a'r awdurdodau cyhoeddus ac amgylcheddol.
- **Amseriad:** Pan fydd yr holl wybodaeth angenrheidiol wedi'i darparu gan y datblygwr, ac unwaith y bydd ymgynghori priodol wedi cael ei gwblhau, byddai'n ofynnol i'r **awdurdod cymwys wneud penderfyniad o fewn tri mis.** Yn dibynnu ar natur, cymhlethdod, lleoliad a maint y prosiect, gallai'r awdurdod cymwys ymestyn hyn am gyfnod ychwanegol o dri mis, ond rhaid iddo hysbysu'r datblygwr am y cyfiawnhad dros wneud hyn.

- **Mesurau adrodd:** Byddai'r cynigion yn **diwygio'r gofynion adrodd ar gyfer Aelod-wladwriaethau.** Byddai'n ofynnol i Aelod-wladwriaethau adrodd i'r Comisiwn **bob chwe blynedd** i nodi nifer y prosiectau a wnaed yn amodol ar asesiad, dadansoddiad o asesiadau yn ôl categorïau prosiect a math o ddatblygwr, hyd cyfartalog yr asesiad a'r gost gyfartalog.

## Cefndir y cynnig

Cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd adroddiad ar weithredu ac effeithiolrwydd y Gyfarwyddeb bresennol ym mis Gorffennaf 2009. Nododd yr adroddiad lle mae'r Gyfarwyddeb wedi bod yn effeithiol ac ardaloedd lle'r oedd angen gwella'r modd o'i gweithredu. Nododd yr adroddiad nifer o rwystrau a oedd yn bodoli i weithrediad effeithiol y Gyfarwyddeb, gan gynnwys:

- Sicrhau bod y Gyfarwyddeb yn cydymffurfio â Dyfarniadau Llys Cyfiawnder Ewrop ar ei gweithrediad.
- Yr amrywiad o ran ansawdd dogfennau asesu ar draws Aelod-Wladwriaethau.
- Amrywiad o ran yr amserlen ar gyfer cwblhau asesiadau.
- Amrywiad yn y dehongliad o Atodiad II i'r Gyfarwyddeb a'r broses sgrinio sy'n berthnasol i brosiectau Atodiad II.
- Diffyg synergedd rhwng y Gyfarwyddeb a deddfwriaethau eraill yr Undeb.

Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad hwn, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus gan y Comisiwn rhwng mis Mehefin a mis Medi 2010. Gofynnodd yr ymgynghoriad am sylwadau ar effeithiolrwydd y Gyfarwyddeb a dewisiadau posibl ar gyfer diwygiadau i'r dyfodol. Yn ogystal, cynhaliwyd cynhadledd i randdeiliaid rhwng 18 a 19 Tachwedd 2010. Cafodd y Comisiwn 1365 o ymatebion i'w ymgynghoriad ac mae'n nodi bod canlyniadau'r ymgynghoriad a'r gynhadledd wedi rhoi mewnbyn defnyddiol i'r broses o ddatblygu cynigion y Comisiwn.

## Perthnasedd i Gymru

Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am weithredu'r Gyfarwyddeb yng Nghymru, ac eithrio mewn perthynas â phrosiectau seilwaith mawr y tu allan i gymhwysedd datganoledig. Mae'r Gyfarwyddeb yn cael ei throsi drwy nifer o reoliadau yng Nghymru a byddai angen diwygio'r rheoliadau hyn i adlewyrchu unrhyw newidiadau a wneir. Bydd unrhyw gynigion hefyd yn **effeithio ar waith y cyrff ymgynghori statudol** a datblygwyr yng Nghymru.

Hyd yn hyn, nid yw Llywodraeth Cymru wedi amlinellu ei barn ar y materion hyn. Fodd bynnag, ymgynghorodd Llywodraeth y DU â hi pan roedd yn paratoi Memorandwm Esboniadol ar y cynigion.

## Safbwynt Llywodraeth y DU

Amlinellodd Llywodraeth y DU ei barn am y cynigion mewn memorandwm esboniadol a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2012. Yn y memorandwm esboniadol, mae Llywodraeth y DU yn nodi **na ddylai rhai o'r cynigion a gyflwynwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd gael eu cynnwys mewn Cyfarwyddeb ddiwygiedig ac y dylid eu gadael i ddisgresiwn Aelod-wladwriaethau.**

Er bod Llywodraeth y DU yn cefnogi bwriad y Comisiwn i symleiddio'r broses o asesu'r effaith amgylcheddol, mae'n mynegi pryder arbennig am y canlynol:

- Byddai'r cynigion yn cynyddu nifer y prosiectau y byddai angen eu sgrinio er mwyn asesu a oes angen asesiad llawn;
- Gallai'r cynnig i'w gwneud yn ofynnol bod arbenigwyr achrededig yn adolygu asesiadau ychwanegu costau sylweddol at y broses;
- Mae'r cynnig i sefydlu amserlenni yn gynnig 'un maint i bawb' a fyddai'n achosi anawsterau yn y DU; ac
- Y cynnydd posibl o ran costau a beichiau amser ar ddatblygwyr ac awdurdodau cymwys a allai ddeillio o'r cynigion.

Mae Llywodraeth y DU yn mynegi pryder nad oedd y Comisiwn wedi rhannu ei gynigion neu asesiad effaith cysylltiedig gydag Aelod-wladwriaethau cyn eu cyhoeddi. Mae'n nodi ei bod wedi cychwyn gwaith pellach i asesu costau asesiadau o'r effeithiau amgylcheddol a goblygiadau'r cynigion ar gyfer y DU.

## Cynnydd y goflen yn sefydliadau'r UE

*Bydd yr adran hon yn cael ei diweddarw wrth i'r trafodaethau barhau ym Mrwsel ac wrth i safbwyntiau swyddogol sefydliadau'r UE ddod yn glir.*

### Monitro'r goflen

Bydd cynigion y Comisiwn yn cael eu mabwysiadu drwy'r 'drefn ddeddfwriaethol arferol' (Penderfyniad ar y cyd), sy'n gofyn am gytundeb rhwng y Cyngor y Gweinidogion a Senedd Ewrop cyn y gall y cynigion ddod yn gyfraith yr UE. Gellir dilyn hynt y goflen drwy broses benderfynu'r UE ar ddau safle ar y we (gan ddefnyddio cyfeirnod y Comisiwn i nodi'r cynnydd ar bob elfen o'r pecyn):

- **Arsyllfa Ddeddfwriaethol Senedd Ewrop**
- **Gwefan Pre-Lex y Comisiwn Ewropeaidd**

### Senedd Ewrop

Y pwyllgor arweiniol ar gyfer y goflen hon yw **Pwyllgor yr Amgylchedd, Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Bwyd. Andrea Zannoni, yr ASE Eidalaid** o Gynghrair y Rhyddfrydwyr a'r Democratiaid dros Ewrop a fu'n brif rapporteur ar gyfer gwaith y Pwyllgor. Ymhlith y rapporteurs cysgodol mae **Struan Stevenson, yr ASE Ceidwadol o'r DU**. Mabwysiadodd y Pwyllgor ei adroddiad ar 22 Gorffennaf 2013, gan wneud nifer o argymhellion ar gyfer gwelliannau i gynigion y Comisiwn. Cafodd yr adroddiad hwn ei drafod yng nghyfarfod llawn Senedd Ewrop ar 9 Hydref 2013, a chynhaliwyd pleidlais arno. Bydd y safbwynt a fabwysiadwyd gan y Senedd yn sylfaen i'w thrafodaethau â'r Cyngor Ewropeaidd a'r Comisiwn.

Y gwelliannau allweddol y mae Senedd Ewrop am eu gweld yn cael eu gwneud i gynigion gwreiddiol y Comisiwn yw:<sup>2</sup>

- **Ychwanegu cymal ynghylch gwrthdaro buddiannau** a fyddai'n gofyn bod aelod-wladwriaethau'n sicrhau nad yw'r Awdurdod Cymwys sy'n gyfrifol am asesu'r Adroddiad Amgylcheddol **yn gysylltiedig â'r datblygwr, yn ddibynnol arno neu'n israddol iddo mewn unrhyw ffordd**. Os caiff yr adolygiad hwn ei fabwysiadu, gallai gael effaith sylweddol ar Gyfoeth Naturiol Cymru oherwydd mae'n bosibl na fydd ei fraich gynghorol yn gallu asesu unrhyw Adroddiad Amgylcheddol sy'n cael ei gwblhau gan ei fraich weithredol.
- **Cynnwys gofyniad bod gan y person sy'n cynhyrchu'r Adroddiad Amgylcheddol i'r datblygwr a'r bobl sy'n asesu'r adroddiad i'r awdurdod cymwys y cymwysterau a'r arbenigedd perthnasol.**
- Ychwanegu cymal newydd a fyddai'n **gofyn bod aelod-wladwriaethau'n sefydlu un porth trydanol lle gall y cyhoedd gael mynediad at wybodaeth berthnasol am y cynnig a'r broses ymgynghori**. Hefyd, byddai'n rhaid i aelod-wladwriaethau benodi un pwynt cyswllt i'r cyhoedd o fewn Awdurdod Cymwys.
- Hoffai'r Senedd **weld gwelliant i'r Gyfarwydddeb a fyddai'n gofyn bod datblygwr yn cymryd camau unioni** pan fo gwaith monitro datblygiad yn dangos effeithiau andwyol annisgwyl ar yr amgylchedd.
- Cynnwys cymal a fydd yn gofyn bod **aelod-wladwriaethau'n pennu rheolau ar gosbau ar gyfer torri'r Cyfarwyddbau**. Byddai angen i'r cosbau hyn fod yn effeithiol, yn gymesur ac yn anghymelliad.

<sup>2</sup> Senedd Ewrop, *Gwelliannau a fabwysiadwyd gan Senedd Ewrop ar 9 Hydref 2013 ynghylch COM 2012 (0628)*, Hydref 2013 [fel ar 6 Rhagfyr 2013]

- Gwelliant a fyddai'n ei gwneud yn **orfodol bod unrhyw brosiectau sy'n gysylltiedig â chwilio a gweithgareddau echdynnol drwy hollti hydrolog ("ffraccio") ar gyfer hydrocarbonau anghonfensiynol yn ddarostyngedig i Asesiad o Effeithiau Amgylcheddol**.

## Cyngor y Gweinidogion

Mae **Cyngor yr Amgylchedd** yn arwain ar y goflen yng Nghyngor y Gweinidogion. Hyd yma, mae'r Cyngor wedi cynnal tair sesiwn ar y cynigion hyn, ar 17 Rhagfyr 2012, 21 Mawrth 2013 a 18 Mehefin 2013. Yn ystod y cyfarfod ar 21 Mawrth 2013, cynhaliodd y Cyngor ddadgyhoeddus ar y cynigion.<sup>3</sup>

Yn ystod y trafodaethau hyn, **bu cytundeb cyffredinol ar yr angen i symleiddio'r broses Asesu Effeithiau Amgylcheddol**, ond mynegodd aelod-wladwriaethau bryderon ynghylch cynigion y Comisiwn. Roedd aelod-wladwriaethau'n dadlau y dylai'r diwygiadau **osgoi bod yn rhy rhagnodol a rhoi mwy o hyblygrwydd i aelod-wladwriaethau** roi'r diwygiadau ar waith ar lefel genedlaethol. Mynegodd aelod-wladwriaethau bryderon y gallai cynigion y Comisiwn gynyddu'r pwysau gweinyddol a chostau i aelod-wladwriaethau. Caiff rhagor o drafodaethau yn y Cyngor eu cynnal cyn i'r safbwynt hwn ei fabwysiadu.

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Nia Seaton ([Nia.Seaton@cymru.gov.uk](mailto:Nia.Seaton@cymru.gov.uk)), y Gwasanaeth Ymchwil.

Gregg Jones ([Gregg.Jones@cymru.gov.uk](mailto:Gregg.Jones@cymru.gov.uk))

Swyddfa'r UE.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Tŷ Hywel

Bae Caerdydd

Cardiff

CF99 1NA

<sup>3</sup> Datganiad i'r Wasg gan y Cyngor Ewropeaidd, *3233 Cyfarfod Cyngor yr Undeb Ewropeaidd (yr Amgylchedd)*, 21 Mawrth 2013, [fel ar 6 Rhagfyr 2013]